

Chris Evans

Elizabeth
Stonhold
Darlunio Natur



**CELF AC ADFYWIO
YN HWLFFORDD 2014-17**
BLWYDDYN 2 CERDYN COFNOD ♦ CYMRAEG
1 TACHWEDD 2015 – 31 HYDREF 2016



Ruth Sergeant:
Hwyl rhan o
ddigwyddiad
3-diwrnod o
gelf gyfoes
LLWYFAN

Mae Confluence yn gydweithrediad creadigol rhwng [PLANED](#), [spacetocreate](#), [iDeA Architects](#), [Cyngor Bwrdeistref Sir Benfro](#) a [Pontio Hwlfordd](#). Ei nod yw dyfeisio a phrofi dulliau newydd a dychmygus o weithio yn Hwlfordd fydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd er mwyn ysbrydoli a llunio'r broses o gynllunio ac adfywio'r dref.

Mae Confluence yn un o saith prosiect ledled Cymru sy'n cael cefnogaeth menter strategol Cyngor Celfyddydau Cymru [Creu Cymunedau Cyfoes](#). Trwy gyfrwng rhaglen arbrolfol a elwir yn y Lab ac wedi'i chysylltu i gyfres o gomisiynau artistiaid, nod y prosiect yw **datblygu patrwm ar gyfer adfywio a arweinir gan gelf mewn trefi bach yng Nghymru**.

Er mwyn dilyn y stori hyd yn hyn, edrychwch ar y prosiect [llinell amser](#), sy'n adrodd hanes y prosiect o'r cyhoeddiad Creu Cymunedau Cyfoes, i'r presennol.

Defnyddir pedwar maes perfformiad i fesur cynnydd:

- 1 Newid canfyddiadau pobl am Hwlfordd
- 2 Nifer y bobl sy'n ennyn diddordeb yn y rhaglen ac yn rhoi adborth cadarnhaol
- 3 Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn all celf ei gynnig
- 4 Cefnogaeth ac ymrwymiad y bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar ran y celfyddydau ac adfywio



Yn ystod **BLWYDDYN 2** fe wnaeth Confluence gyrraedd grŵp craidd y tu hwnt i gefnogwyr oedd â diddordeb eisoes yn y celfyddydau ac a oedd wedi cymryd mewn rhan yn ystod Blwyddyn 1. Llwyddodd digwyddiadau awyr agored cyfranogol a'r rheini a gynhaliwyd mewn lleoliadau dros dro neu fel rhan o raglenni ehangach, tebyg i wyl Hwlfordd i gyrraedd **cynulleidfaoedd newydd ac i ennyn eu diddordeb**. Cofnodwyd rhagor na 2500 o bobl yn y digwyddiadau ac roedd yr adborth yn parhau i gadarnhau cymaint yr oedd pobl yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan.

Roedd y rhwydwaith o gefnogwyr yn parhau i dyfu a bu i ragor na 800 o bobl ymuno â grŵp facebook y Lab a

llofnodi'r rhestr bostio erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol a diddordeb brwd mewn postïadau yn dangos y cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r rhaglen.

Y newid mwyaf yw **newid bychan o ran canfyddiad**. Mae cydnabod yn raddol ar lawr gwlad fod y dref yn cynnig llawer o gyfleoedd ac y gellir cyflawni pethau yn disodli'r teimlad o golled a diffyg grym. Mae mentrau fel y Lab Syniadau wedi creu gweithgarwch ehangach ac wedi rhoi llwyfan i unigolion a sefydliadau i gynhyrchu a phrofi mentrau newydd.

Roedd Gŵyl Tref Hwlfordd yn ddigwyddiad pwysig. Daeth sefydliadau gwahanol at ei gilydd i gyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau am wythnos oedd yn



cynnwys detholiad o brosiectau adfywio amrywiol a hygyrch yn ymwneud â phartneriaeth Cydlifiad.

Mae prosesau comisiynu amrywiol wedi denu ymarferwyr celf o safon uchel sy'n cynnwys y gymdeithas o orllewin Cymru, o ledled y DU a thu hwnt. Defnyddiwyd adeiladau gwag a thir y cyhoedd yn Hwlfordd fel llwyfan i gynyddu **dealltwriaeth o weithiau celf gyfoes.**

Mae aelodau blaenllaw o gyngor y Dref yn gweld fel y gall y celfyddydau ennyn diddordeb y gymuned, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd yn gwireddu'r potensial llawn o weithio gydag artistiaid ymysg y **bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol** sy'n rhan o'r adfywio a gyda'r cyhoedd yn gyffredinol.

Y pwyslais ar gyfer Blwyddyn 3

- Defnyddio comisiwn cyfalaf fel cyfle i gynhyrchu rhywbeth cyffyrddadwy, sy'n dathlu newidiadau cadarnhaol sy'n digwydd yn Hwlfordd
- Cydweithio ag eraill i ddatblygu rhaglen gelfyddydol etifeddol fydd yn rhyddhau creadigrwydd pobl y dref
- Parhau i ddefnyddio Syniadau Lab ac wythnos Gŵyl fel llwyfan i ehangu cyfranogiad a chefnogi gweithgareddau celf ac adfywio ar lawr gwlad.
- Archwilio'r Darlun Mawr drwy wreiddio gwaith arlunwyr wrth gynllunio, a chyflawni gwaith ymgysylltu ac adfywio gan Gyngor Sir Benfro, PLANED.